

2024 Rhif (Cy.)

2024 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55  
(Cyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe) i  
Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint)  
(Gwaharddiadau a Chyfyngiadau  
Traffig Dros Dro) 2024

The A55 Trunk Road (Junction 34  
(Ewloe Interchange) to the  
Wales/England Border, Flintshire)  
(Temporary Traffic Prohibitions &  
Restrictions) Order 2024

Gwnaed 6 Chwefror 2024

Made 6 February 2024

Yn dod i rym 11 Chwefror 2024

Coming into force 11 February 2024

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a/neu gyfyngu ar draffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited and/or restricted because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi a chychwyn

Title and commencement

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 34 (Cyfnewidfa Ewloe) i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 11 Chwefror 2024.

1. The title of this Order is the A55 Trunk Road (Junction 34 (Ewloe Interchange) to the Wales/England Border, Flintshire) (Temporary Traffic Prohibitions & Restrictions) Order 2024 and this Order comes into force on 11 February 2024.

Dehongli

Interpretation

2. Yn y Gorchymyn hwn—  
ystyr "cerbyd esempt" ("exempted vehicle") yw—

2. In this Order—  
"exempted vehicle" ("cerbyd esempt") means—

(1) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

- (a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1);
- (b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—
  - (i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu
  - (ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 18:00 o'r gloch ar 11 Chwefror 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A55 Caer i Fangor;

ystyr “lluoedd arbennig” (“*special forces*”) yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

### Gwaharddiadau a chyfyngiadau

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd sy'n 3.2 metr o led neu'n lletach ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

(1) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Trosedd Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

- (a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(1);
- (b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—
  - (i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or
  - (ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

“special forces” (“*lluoedd arbennig*”) means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor trunk road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 18:00 hours on 11 February 2024 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

### Prohibitions and restrictions

**3.** No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**4.** No person may, during the works period, drive any vehicle with a width of or greater than 3.2 metres on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**5.** No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

**6.** No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in Schedule 1 to this Order.

(1) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

7. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

8. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

9. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

10. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, na chaniatáu i gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

### **Cymhwyso**

11.—(1) Ni fydd y cyfyngiadau na'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 a 10 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

(2) Nid yw unrhyw derfynau cyflymder a osodir gan y Gorchymyn hwn yn gymwys i gerbyd esempt.

### **Atal dros dro**

12. Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau modur ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiadau a bennir yn erthyglau 7, 8 a 9 yn gymwys.

### **Cyfnod para'r Gorchymyn hwn**

13. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

6 Chwefror 2024

*Nicci Hunter*  
Arweinydd y Tîm Busnes  
Llywodraeth Cymru

7. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 30 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

8. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 40 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

9. No person may, during the works period, drive any motor vehicle at a speed exceeding 50 miles per hour on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

10. No person may, during the works period, use or permit the use of a vehicle, other than an exempted vehicle, in such a way that it overtakes any other vehicle on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order.

### **Application**

11.—(1) The prohibitions and restrictions in articles 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9 and 10 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

(2) No speed limits imposed by this Order apply to an exempted vehicle.

### **Suspension**

12. Any statutory provisions restricting the speed of motor vehicles on the lengths of the trunk road specified in Schedule 2 to this Order are suspended during such times as the restrictions specified in articles 7, 8 and 9 apply.

### **Duration of this Order**

13. The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated

6 February 2024

*Nicci Hunter*  
Business Team Leader  
Welsh Government

**ATODLEN 1**  
**Gwahardd traffig dros dro**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35 (Dobshill) hyd at ffin Cymru/Lloegr.

Y darnau o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 35, y ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) a'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 36A.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35 (Dobshill).

Y darnau o'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36A, y ffyrdd ymadael ac ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36 (Cyfnewidfa Warren) a'r ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 35.

**ATODLEN 2**  
**Terfynau cyflymder dros dro o 30 mya, 40 mya  
a/neu 50 mya a dim goddiweddyd**

Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyfnewidfa Ewloe (Cyffordd 34) hyd at ffin Cymru/Lloegr.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at ganolbwynt Cyfnewidfa Dobshill (Cyffordd 35).

**SCHEDULE 1**  
**Temporary prohibition of traffic**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Junction 35 (Dobshill) to the Wales/England border.

The lengths of the eastbound entry slip road at Junction 35, eastbound exit and entry slip roads at Junction 36 (Warren Interchange) and the eastbound entry slip road at Junction 36A.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the Wales/England border to the nosing of the westbound entry slip road at Junction 35 (Dobshill),

The lengths of the westbound exit slip road at Junction 36A, westbound exit and entry slip roads at Junction 36 (Warren Interchange) and the westbound exit slip road at Junction 35.

**SCHEDULE 2**  
**Temporary 30 mph, 40 mph and/or 50 mph speed  
limits and no overtaking**

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the centre-point of Ewloe Interchange (Junction 34) to the Wales/England border.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the Wales/England border to the centre-point of Dobshill Interchange (Junction 35).